

# Yn ddisgybl ysgol ac yn chwilio am waith rhan amser?

## Be' 'di hyn i gyd?

Wel, mae o'n cynnwys popeth sydd angen i ti ei wybod am weithio. Mae gen i swydd wych a dw i'n ennill rhywfaint o arian i fynd allan a phrynu'r pethau dw i eisiau.

## Sut wnest ti lwyddo i wneud hynny?

Roedd o'n hawdd, doedd ond angen i mi fod yn 13 oed neu hŷn i weithio, yn ôl y gyfraith. Felly, alla i ddim gwerthu sigarennau na moddion, gwerthu o ddrws i ddrws neu weithio gyda pheiriannau peryglus

## Chei di ddim gweithio

mewn cegin, mewn arcêd neu ffair, mewn theatr, sinema neu ddisgo, neu mewn warws neu ffatri

## Ydi o mor hawdd a hynny, go-iawn?

Cyn belled â bod yr oriau'n iawn, a bod dy rieni yn fodlon, fe allai di weithio.

## Alla i gael fy atal rhag gweithio?

GALLI! - Bydd dy gyflogwr yn derbyn cyfarwyddyd i ddod â dy swydd i ben os nad wyt ti'n mynychu'r ysgol, os wyt ti'n hwyr i'r ysgol (oherwydd dy waith), ac os yw dy addysg neu dy iechyd yn dioddef

## lawn, sut mae dechrau arni felly?

Yr oll oedd rhaid i mi ei wneud oedd gwneud cais am drwydded waith. Yn syml, mae hyn yn golygu fod eich cyflogwr wedi eich cofrestru chi gyda'r Swyddog Lles Addysg o fewn y Cyngor.

Dy gyflogwr sy'n gyfrifol am dy iechyd a diogelwch a dy lesiant pan fyddi di wrth dy waith, ac mae'n rhaid iddo/iddi wneud yn siŵr fod gen ti ddillad ac esgidiau addas ar gyfer y gwaith mae disgwyl i ti ei wneud. Fe ddylent adael i ti a dy rieni wybod beth fydd eu camau nhw i wneud yn siŵr dy fod yn saff.

Os wyt ti rhwng 13 ac 14, AR DDYDDIAU YSGOL

- 2 awr y dydd (y tu allan i oriau ysgol, wrth reswm!)
- Fe gei di weithio am hyd at 5 awr ar ddydd Sadwrn
- Ar ddydd Sul, dim ond am 2 awr rhwng 7am a 7pm y cei di weithio

Chei di ddim gweithio am fwy na 12 awr yr wythnos

Yn ystod gwyliau ysgol, fe gei di weithio hyd at 5 awr y dydd ar ddydd Llun - Sadwrn, a 2 awr ar ddydd Sul, hyd at 25 awr yr wythnos.

Mae'n rhaid i ti gael o leiaf 2 wythnos yn olynol bob blwyddyn heb gyflogaeth - er mwyn gwneud yn siŵr dy fod yn cael seibiant.

Pan fyddi'n 15 ac 16, mae'r rheol o weithio 2 awr y dydd yn unig yn ystod y tymor ysgol ac ar ddydd Sul yn parhau. Ar ddyddiau Sadwrn, fe gei di weithio hyd at 8 awr y dydd. Yn ystod GWYLIAU YSGOL fe gei di weithio

- 8 awr o ddydd Llun i ddydd Sadwrn
- 2 awr ar ddydd Sul, hyd at 35 awr yr wythnos.

Yr unig beth i'w gofio yw nad oes neb yn cael gweithio cyn 7am neu ar ôl 7pm ar unrhyw ddiwrnod o'r wythnos

Mwynha dy waith a dy swydd. Mae'n rhan o dy addysg tuag at fywyd. Ond yn fwy na dim, cymer ofal ... ac os oes rhywun yn gofyn i ti wneud unrhyw beth y tu allan i'r disgwyliad ar gyfer dy swydd, siarada â dy rieni.

Os oes gen ti unrhyw gwestiynau neu os wyt ti am gael gwybodaeth bellach am waith rhan amser tra dy fod di'n dal i fynychu'r ysgol, cysyllta â'ch Swyddog Lles Addysg: [GweinyddolADYaCh@gwynedd.llyw.cymru](mailto:GweinyddolADYaCh@gwynedd.llyw.cymru)  
Neu, cymer olwg ar y wefan: <https://adyach.cymru/cy/Rhieni/Gwasanaethau/Cynhwysiad/Lles-Addysg/Cyflogi-Plant-Trwyddedau-Gwaith.aspx>